Annwyl Stondinwr,

**CYRRAEDD A GOSOD**:
Dylech gyrraedd i osod eich stondin o 6:30a.m. ymlaen ddydd Sadwrn, Mai 10 2025. **Peidiwch** â defnyddio Sat Nav i gyrraedd eich lleoliad – rydym wedi creu llwybrau hwylus i geisio osgoi tagfeydd ar strydoedd cul y dre!
Os oes ganddoch chi uned eich hun ac yr hoffech chi osod yn rhannol ar y nos Wener, mae croeso i chi wneud hynny – mae gennym swyddogion diogelwch ar ddyletswydd drwy'r nos. Ond gofynnwn yn garedig i chi adael i ni wybod ymlaen llaw drwy anfon e-bost at post@gwylfwydcaernarfon.cymru dydd Iau, ar yr hwyraf..
Os ydych chi wedi archebu Stondin yr Wyl, mae cownter yn rhan o'r stondin. Os yw'n well gennych chi beidio â chael cownter, gadewch i ni wybod **ERBYN NOS LUN 5ed o FAI**

**Y MAES – LL55 2NF**
Dewch i mewn ar hyd yr A487 a dilynwch yr arwyddion ar gyfer Canol y Dref. Dilynwch y system un-ffordd heibio'r multi-storey, gan basio siop/caffi Ambiwlans Awyr ar y dde i chi, a throi i'r chwith wrth Gaffi Costa. Bydd swyddog traffig yno'n disgwyl amdanoch chi.

**PROM 1 a PROM 2 - LL55 1SH**
**PENDEITS - LL55 2AU a STRYD Y CASTELL - LL55 1SE**
O gyfeiriad Bangor, ar hyd yr A487 tan gylchfan yr Alex, troi i'r dde heibio Morrisons, a dilyn y ffordd heibio Galeri. Bydd stiward ar y gylchfan bach i'ch cyfeirio ymlaen.
O gyfeiriad Porthmadog, ar hyd yr A487 tan gylchfan yr Alex, troi i'r chwith heibio Morrisons, a dilyn y ffordd heibio Galeri. Bydd stiward ar y gylchfan bach i'ch cyfeirio ymlaen

**CEI LLECHI – LL55 2PB**
O gyfeiriad Bangor, ar hyd yr A487 tan gylchfan Ysbyty Eryri, troi i'r dde lawr Ffordd Santes Helen, a dilyn y ffordd heibio Travis Perkins a Gorsaf Rheilffordd yr Ucheldir. Bydd stiward yno i'ch cyfeirio ymlaen.
O gyfeiriad Porthmadog, ar hyd yr A487 tan gylchfan Ysbyty Eryri, troi i'r chwith lawr Ffordd Santes Helen, a dilyn y ffordd heibio Travis Perkins a Gorsaf Rheilffordd Eryri. Bydd stiward yno i'ch cyfeirio ymlaen.

**PARC COED HELEN – LL54 5RR**
Defnyddiwch eich SatNav – mae'r ffordd i'r safle hwn y tu allan i furiau'r dref!
O gyfeiriad Porthmadog, dilynwch yr A487 at gyrion Caernarfon, dilyn arwydd Llanfaglan/Saron i Ffordd Pant, ac yna'n syth i'r dde ar hyd Lôn Coed Helen. Ymlaen am rhyw filltir, a bydd y parc ar eich chwith.

O gyfeiriad Bangor, dilynwch yr A487 at gyrion Caernarfon, heibio Tesco a rowndabout Ysbyty Eryri, dilyn arwydd Llanfaglan/Saron i Ffordd Pant, ac yna'n syth i'r dde ar hyd Lôn Coed Helen. Ymlaen am rhyw filltir, a bydd y parc ar eich chwith gyda stiward i'ch cyfarch.

**PAWB**
Bydd **stiward yr ŵyl** yn eich cyfeirio at leoliad eich stondin / gofod ac yn rhoi tocyn parcio i chi ar gyfer un cerbyd. **Ni chewch chi** gadw cerbyd wrth eich stondin/uned: **RHAID**

parcio'ch cerbydau yn y man dynodedig cyn 9am. Mae meysydd parcio talu ac arddangos ar gael ar gyfer unrhyw gerbydau ychwanegol sydd gennych chi. Rydym yn disgwyl i'r stondinau fod yn barod i fasnachu erbyn 10.00. Rhaid i chi ddangos eich sticer Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a rhestr alergenau, ar eich stondin - os yn berthnasol.

**Lleoliad Parcio gyda thocyn parcio yr ŵyl**: Nodwch mai parcio ar eich risg eich hun ydych chi.
**Cerbydau mawr/faniau tal (2m + o uchder)**: Diolch i Scottish Power cewch barcio am ddim yn eu safle ar Ffordd Santes Helen, **LL55 2YD**.
Ceir/faniau bach: Maes parcio aml-lawr staff Cyngor Gwynedd, Ffordd Balaclava, **LL55 1SQ.**
Rydym yn pwyso arnoch chi i ddefnyddio'r meysydd parcio hyn, er mwyn rhyddhau llefydd parcio prin yn y dre – ac maen nhw am ddim! Bydd stiwardiaid yn y ddau leoliad o 6:30 am ymlaen.

**Dad-osod a gadael**: Bydd nifer o strydoedd y dref wedi cau rhwng 8 am a 6 pm. Cewch gychwyn dadosod unrhyw bryd ar ôl 5pm ond ni fydd modd dod â cherbyd at eich stondin nes y bydd y swyddgogion diogelwch yn caniatau i chi symud.

**DŴR**:
Rydym yn darparu cyflenwad dŵr yfadwy ar eich cyfer. Gofynwnch i stiward yr ŵyl ble mae'r un agosaf. Mae croeso i chi ddefnyddio'r cyflenwad yma ar gyfer eich gofynion hylendid. Nid oes hawl gan neb i wagio dŵr budr i lawr draeniau ffordd.

**GWASTRAFF / YR AMGYLCHEDD**:
Chi sy'n gyfrifol am gludo unrhyw sbwriel o'ch uned ar ddiwedd y dydd. Mae biniau ail-gylchu a biniau bwyd ychwanegol yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd ar gyfer y cyhoedd yn unig. Mae gan yr Ŵyl bolisi lleihau y defnydd o blastig a gofynnwn i chi barchu hynny. Bydd y bariau sydd wedi archebu gwydrau plastig aml-ddefnydd ganddon ni yn eu derbyn yn y bore a byddwn yn casglu y rhai sy'n weddill ar ddiwedd y dydd.

**GWYBODAETH**:
Bydd stiwardiaid mewn siacedi llachar ar gael drwy'r dydd mewn gofal o'r stondinau a'r digwyddiadau. Os ydych chi'n sylwi ar stiward blinedig mewn ciw wrth eich stondin, beth am ddangos chydig o ffafraeth iddyn nhw am eu gwaith caled?? Eleni, am y tro cyntaf, bydd gennym Reolwyr Parth a fydd mewn gazebo yr ŵyl ac yn gyfrifol am eu rhan hwy o'r dref drwy'r dydd. Bydd prif Swyddfa'r Ŵyl yn Oriel Pendeitsh / y Swyddfa Dwristiaeth ble fydd aelodau o'r pwyllgor trefnu yn hapus i ateb cwestiynau. Gan edrych ymlaen at eich gweld yn yr Ŵyl a gobeithio y cawn dywydd ffafriol ac ymwelwyr lu! Byddai'n dda iawn pe baech yn cymryd unrhyw gyfle i hysbysebu'r ffaith eich bod yn dod i Ŵyl Fwyd Caernarfon e.e. ar Instagram, Facebook ac ymysg eich cydnabod.

**Cyswllt: post@gwylfwydcaernarfon.cymru**

Rhaglen yr ŵyl a map
http://www.gwylfwydcaernarfon.cymru/2025-festival.html
www.gwylfwydcaernarfon.cymru Instagram: @gwylfwydcaernarfon
www.facebook.com/gwylfwydcaernarfon